

# Datgarboneiddio Tai

## Canfyddiadau'r rhaglen ymgysylltu

Hydref 2022

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i *Ddatgarboneiddio'r sector tai preifat*, bu'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn cyfweld â landlordiaid preifat a pherchnogion tai o bob rhan o Gymru. Mae'r papur hwn yn cyfleu canfyddiadau'r cyfweiliadau hynny.

### Rhaglen Ymgysylltu

Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfres o 14 o gyfweiliadau manwl yn ystod mis Awst a mis Medi 2022. Nod y cyfweiliadau oedd casglu barn landlordiaid preifat a pherchnogion tai, er mwyn deall ymhellach y rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig i ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu heiddo.

### Cyfranogwyr

Cafodd wyth perchennog tŷ a chwe landlord preifat eu cyfweld. Roedd y cyfranogwyr yn byw mewn eiddo neu'n rhentu eiddo a oedd yn amrywio o 200 i 20 oed. Roedd y cyfranogwyr yn dod o Dorfaen, Conwy, Caerdydd, Sir Fynwy a Phowys.

Cyflwynodd y cyfranogwyr amrywiaeth o brofiadau bywyd. Roedd y rhain yn cynnwys pobl sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu; pobl sydd wedi adeiladu estyniad i'w heiddo; a phobl sydd wedi addasu eu heiddo.

Diolch i bawb a gyfrannodd at y rhaglen ymgysylltu.

## Methodoleg

Cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn, wyneb yn wyneb, ac ar Microsoft Teams. Dewisodd y cyfranogwyr y dull cyfweld a oedd fwyaf cyfleus iddyn nhw. Roedd fformat yr ymgysylltu yn y sesiynau gwahanol yn debyg i raddau helaeth ond yn amrywio rhyw fymryn er mwyn diwallu anghenion y cyfranogwyr a hwyluso sgwrs naturiol, ansoddol.

Gofynnwyd y cwestiynau ganlyn:

- a. Yn eich barn chi, beth yw'r rhwystrau i ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn eiddo preifat?
- b. Pa gymorth sydd ei angen er mwyn goresgyn y rhwystrau?
- c. Beth yw eich barn ynghylch sut y gallai cynlluniau yn y dyfodol ddylanwadu ar a/neu gymell perchnogion tai a landlordiaid y sector preifat i ôl-osod eu heiddo?
- d. A ydych yn meddwl bod/y bydd yr argyfwng costau byw yn effeithio ar landlordiaid preifat a pherchnogion tai wrth ystyried ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu heiddo?

Roedd y cyfranogwyr yn cytuno mai'r argyfwng costau byw yw'r rhwystr mwyaf sylweddol sy'n wynebu landlordiaid a pherchnogion tai wrth ystyried a ddylid ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu heiddo.

Mae'r ymatebion i gwestiwn e) wedi'u cynnwys ar wahân yn Adran 2: Costau byw

## Crynodeb o'r argymhellion

Fe wnaeth y cyfranogwyr nifer o awgrymiadau a fydd, yn eu barn nhw, yn helpu i gael gwared ar y rhwystrau i ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn eiddo preifat. Awgrymodd y cyfranogwyr hefyd syniadau ar gyfer dull mwy cenedlaethol o sicrhau effeithlonrwydd ynni.

**Argymhelliad 1.** Sefydlu 'siop-un-stop' ddiuedd i ddarparu gwybodaeth ar lefel genedlaethol, sydd hefyd yn darparu rhestr leol o osodwyr dibynadwy ac yn hwyluso fforwm ar-lein i berchnogion tai a landlordiaid.

**Argymhelliad 2.** Darparu cyngor wedi'i deilwra ar gyfer eiddo unigol ar ddechrau unrhyw waith adeiladu neu ar gais drwy wasanaeth gwybodaeth canolog diduedd.

**Argymhelliad 3.** Sicrhau bod stamp 'gwlad tarddiad' i'w weld ar yr holl ddeunyddiau adeiladu cyn eu prynu er mwyn galluogi pobl i leihau eu hól troed carbon.

**Argymhelliad 4.** Darparu cymhellion ariannol i berchnogion tai preifat ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu heiddo, gan gynnwys gostyngiad neu seibiant yn nhaliadau'r dreth gyngor neu gymorth ariannol tuag at y gost.

**Argymhelliad 5.** Darparu grantiau, benthyciadau di-log, a/neu gymorthdaliadau i bob landlord a pherchennog tai i ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu heiddo.

**Argymhelliad 6.** Galluogi landlordiaid i adhawlio'r dreth ar fesurau effeithlonrwydd ynni a gyflawnwyd ar yr eiddo y maent yn ei rentu.

**Argymhelliad 7.** Sicrhau bod hyfforddiant Llywodraeth Cymru i landlordiaid yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn eiddo.

**Argymhelliad 8.** Llywodraeth Cymru yn darparu hyfforddiant i landlordiaid i'w hannog i weld manteision busnes ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu heiddo.

**Argymhelliad 9.** Gwneud gwaith ymchwil a datblygu ar effeithlonrwydd a hirhoedledd deunyddiau treftadaeth a dulliau i gefnogi'r stoc dai sy'n heneiddio yng Nghymru.

**Argymhelliad 10.** Datblygu systemau gwresogi cymunedol sy'n cyflenwi gwres i sawl eiddo o ffynhonnell wres gyffredin neu foeler cyffredin.

**Argymhelliad 11.** Ailwladoli asedau ynni ac ailfuddsoddi elw i ddatgarboneiddio stoc tai Cymru a lleihau biliau ynni.

**Argymhelliad 12.** Sicrhau bod Cymru yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy dechnoleg forol.

# 1. Y rhwystrau i ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn eiddo preifat

## Cost

**1.** Roedd yr holl gyfranogwyr yn cytuno, ar ôl i'r argyfwng costau byw ddod i ben, mai'r gost gyffredinol yw'r rhwystr mwyaf arwyddocaol i ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn eiddo preifat.

*Yn sicr, cost yw'r rhwystr mwyaf. Y system wresogi sy'n cael ei hargymell nawr yw'r pypiau gwres ffynhonnell aer, wel mae cost y rheini'n ofnadwy o uchel. Maen nhw tua phum gwaith yn ddrutach na'r boeleri nwy mwyaf effeithlon ar hyn o bryd. Felly doedd dim ffordd yn y byd y gallwn i fforddio hynny ar gyfer fy nhenant na fi fy hun.*

*Fe wnaethon ni ystyried gosod ffenestri newydd. Roedd rhai o'r ffenestri wedi torri a doedd y gwydro dwbl ddim yn wych. Yn sydyn iawn rydych chi'n sôn am rhwng £10,000 a £13,000. Felly fe wnaethon ni osod un neu ddwy o ffenestri newydd oherwydd doedden ni ddim yn gallu fforddio gwneud y cyfan.*

*Os nad oes unrhyw fantais i mi'n bersonol ac nad yw'n lleihau fy miliau gwres yna does dim budd imi o wneud hynny. Byddwn i wrth fy modd yn cael tŷ ecogyfeillgar ar gyfer fy holl denantiaid, ond mae cost i hynny.*

**2.** Soniodd y cyfranogwyr hefyd am y rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth benderfynu pa ddulliau effeithlonrwydd ynni i'w prynu gan ystyried y gyllideb a oedd ar gael iddynt.

*Roedd gennym fylchau mawr o dan yr estyll pren y gallem eu llenwi â choncrit, roedd modd gwneud hynny'n gyflym ac yn rhad. Fe gawsom wared ar yr holl reiddiaduron a gosod system wresogi o dan y llawr, gan lenwi'r bylchau â choncrit. Roedd hynny'n llawer mwy fforddiadwy a chost-effeithiol na phecyn cyllid gwerth £20,000 i roi paneli solar ar y to.*

*Rydym wedi gosod boeler newydd a deunydd inswleiddio ac iddo gefn ffoil, a oedd yn £60 y panel yn hytrach na £40. Roeddem yn gallu fforddio'r cynnydd hwnnw yn y pris felly roedd hynny'n iawn. Ond yna mae'r cyfan yn dechrau cronni. Roedd yn rhaid imi ystyried a allen ni roi'r paneli solar ar y tŷ o hyd. Roedd y to yn hen ac roedd angen ail-doi. Yna byddai'n rhaid imi feddwl am gost gychwynnol y paneli, y gwaith cynnal a chadw, a phopeth arall. Byddai wedi dod i tua £40,000. Felly bu'n rhaid imi roi'r gorau i'r syniad, ac roedd hynny'n drueni mawr.*

- 3.** Dangosodd landlordiaid y rhwystr y maent yn ei ystyried o ran cost a budd.

*O ystyried y dreth rwy'n ei thalu, a'r morgais rwy'n ei dalu heb unrhyw ryddhad treth, mae'r arian rwy'n ei gael yn ôl drwy rentu'r eiddo yn eithaf bach mewn gwirionedd. Rwy'n gweithredu fel cwmni cyfyngedig preifat ac felly rwyf hefyd yn talu treth gorfforaeth. Felly pan fyddaf yn codi er enghraifft £1000 y mis, dim ond tua £500 y byddaf yn ei gael ar ôl trethi ac ati ac yna mae'n rhaid imi roi hwnnw o'r neilltu rhag ofn y bydd angen atgyweiriadau. Y mis hwn roedd yn rhaid imi dalu £600 am atgyweiriadau ar un eiddo penodol. Mae'n rhaid imi wneud elw.*

- 4.** Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn dadlau bod rhoi'r cyfrifoldeb ariannol am ddatgarboneiddio'r stoc tai preifat ar y landlord preifat a'r perchennog yn unig yn rhwystr i ddatgarboneiddio'r stoc tai, gan ei wneud yn anghyraeddadwy.

*Mae'n amlwg bod y llywodraeth am gael ei gweld yn ceisio gwneud pawb yn garbon niwtral, ond does ganddi ddim syniad sut i gyflawni hynny heb i berchnogion tai dalu amdano. A, gyda llaw, rydyn ni eisoes yn talu am bopeth arall.*

## Cymhellion a chymorthdaliadau

- 5.** Ystyriodd y cyfranogwyr sut y gellid cymell perchnogion tai a landlordiaid a rhoi cymhorthdal iddynt i'w hannog i ddatgarboneiddio eu heiddo. Teimlai rhai cyfranogwyr fod diffyg cymorth ariannol gan y Llywodraeth yn rhwystr i gyflawni'r nod datgarboneiddio.

*Yr unig ffordd y byddwn i'n ystyried ôl-osod fy eiddo rhent yw pe gallwn i adennill rhywfaint o'r arian. Mae bod yn landlord yn golygu rhedeg busnes.*

*O ran unrhyw fenter lle y bu gofyniad i uwchraddio adeiladau, mae'r llywodraeth wedi darparu cymorth bob tro. Felly ar ôl yr ail ryfel byd, roedd llawer iawn o gymorth ar gael gan y llywodraeth i uwchraddio adeiladau. Os yw'r Llywodraeth wir eisiau inni uwchraddio adeiladau i fod yn ynni-effeithlon yna mae angen iddi gael polisi cynhwysfawr ac nid dim ond targedu enillion hawdd, fel perchnogion tai neu roi pwysau ar landlordiaid.*

- 6.** Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn pryderu na fyddai cymorthdaliadau yn effeithiol nac ar gael iddynt.

*Mae modelau prawf modd rhyw 20-30 mlynedd ar ôl yr oes! Does ganddyn nhw ddim syniad faint mae'n ei gostio.*

*Yn yr eiddo rwy'n eu rhentu, pan wnes i eu hadnewyddu fe wnes i gadw'r hen foeleri gan eu bod yn dal i gyrraedd y safon, ond dydyn nhw ddim yn wych. Pe bai cynllun wedi bod ar gael i helpu gyda 50% o'r gost, dyweder, byddwn i wedi gosod boeleri newydd. Rwy'n gwybod bod cynlluniau ar gael ond dw i ddim yn meddwl eu bod ar gael imi.*

- 7.** Roedd rhai cyfranogwyr yn pryderu y byddai rheoliadau'n cael eu creu i orfodi perchnogion tai a landlordiaid i ddatgarboneiddio eu heiddo.

*Allwch chi ddim gorfodi pobl i ôl-osod eu heiddo. Os yw rhywun yn byw mewn tŷ a oedd, pan gafodd ei brynu neu pan gafodd ei adeiladu, yn cydymffurfio â'r holl reolau adeiladu ar y pryd, allwch chi ddim newid y rheolau a gorfodi pobl i fodloni gofynion newydd. Yn y pen draw, fydd pobl ddim yn gallu talu.*

*Fel landlord, byddwn i'n ei chael hi'n anodd iawn pe bai ffon a dim moronen. Pe baech yn dweud wrthyf 'mae'n rhaid i'ch boeleri fod o safon benodol erbyn 2025', byddwn yn cyfrifo'r gost, ond rwy'n meddwl y gallai rhai landlordiaid ei chael hi'n anodd oherwydd ni fydd ganddyn nhw'r arian i wneud hynny. Ond os na fydd landlordiaid yn cael eu gwthio i newid, a fydden ni'n newid?*

## Cael gafael ar wybodaeth

- 8.** Roedd rhai cyfranogwyr yn cytuno bod gwybodaeth am ôl-osod eiddo ar gael. Fodd bynnag, roedd yr holl gyfranogwyr yn cytuno nad yw'n hawdd dod o hyd i'r wybodaeth honno.

*Rwy'n gwybod bod yr holl wybodaeth ar gael ond oherwydd nad yw'r cyfan mewn un lle mae'n anodd iawn gwneud penderfyniadau yn y pen draw. Doedd hi ddim yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth.*

- 9.** Aeth y cyfranogwyr ymlaen i ddisgrifio'r rhwystr y maent yn ei wynebu o ran deall y wybodaeth sydd ar gael a chymhwysu'r wybodaeth honno i eiddo unigol.

*...mae'n rhaid i'r cyfan gyd-fynd â'r hyn rydych chi'n ei wybod, faint allwch chi ei fforddio, pa fath o dŷ sydd gennych, a beth allwch chi ei wneud i'r tŷ hwnnw. Mae cymaint o broblemau i'w goresgyn, ac mae'r problemau'n benodol i chi a'ch tŷ.*

*Oni bai bod gennych set sgiliau penodol iawn a phrofiad yn y maes adeiladu, efallai y byddwch yn cael trafferth deall beth sydd ar gael ichi a beth fyddai'n gweithio i'ch eiddo. Does dim digon o gymorth ar gael i helpu pobl i ddeall yr opsiynau sydd ar gael iddyn nhw.*

**10.** Roedd landlordiaid yn cytuno y gellid gwneud mwy i roi gwybod iddynt am ddulliau ôl-osod, yn enwedig o ystyried yr hyfforddiant presennol.

*Does dim gwybodaeth ar gael am y camau effeithlonrwydd ynni y gallwn i eu cymryd. Does neb wedi cysylltu â mi fel landlord i roi gwybodaeth imi am hynny. Fel landlord mae'n rhaid imi gymryd rhan yng nghwrs hyfforddi landlordiaid Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid inni sefyll arholiadau a gwneud yn siŵr bod popeth a ddylai fod yn ein heiddo ni yno, fel larymau ac ati. Ond dydw i ddim yn gwybod llawer mwy na defnyddio bylbiau ynni-effeithlon.*

### **Cael gafael ar wybodaeth ddiuedd**

**11.** Roedd y cyfranogwyr yn cytuno nad yw'r wybodaeth a roddir iddynt gan gwmnïau sy'n gwerthu cynhyrchion arbed ynni yn ddibynadwy yn gyffredinol oherwydd mai nod y cwmni yw gwerthu ei gynnyrch.

*Mae angen tryloywder. Dydw i ddim eisiau gweld gwerthwr ar garreg y drws yn dweud wrthyf mai ei gynnyrch ef yw'r gorau erioed. Rwyf eisiau cyngor gwirioneddol annibynnol a gwybodaeth dryloyw.*

*Rwy'n swyddog safonau masnach wedi ymddeol. Roedd yn rhaid imi orfodi deddfwriaeth defnyddwyr ac ymdrin â chwynion am waith gwael. Yn fy marn i, allwch chi ddim cael cyngor annibynnol a diduedd gan fasnachwyr fel arfer...oherwydd maen nhw eisiau'r gwaith ac maen nhw ar ôl eich arian chi. Dw i ddim yn gwybod am unrhyw asiantaethau sy'n rhoi cyngor diduedd ar wella cartrefi. Masnachwyr sy'n dod allan i roi cyngor ichi bob tro ond mae'n amlwg eu bod yn gwneud hynny gan eu bod yn awyddus i gael y busnes a gallai hynny olygu nad yw'r cyngor yn ddiuedd.*

**12.** Aeth y cyfranogwyr ymlaen i ddangos yr angen am wybodaeth ddibynadwy ac annibynnol er mwyn deall arbedion ynni gwirioneddol a gwneud penderfyniadau ariannol.

*Pe bawn i'n gwybod y gallwn roi paneli solar ar y to ac y byddai'n arbed swm penodol o arian imi, mae'n debyg y byddwn i'n gwneud hynny. Ond does dim gwybodaeth i brofi hynny. Dw i'n gwybod dim amdano, yn fwy nag y byddai gwerthwr yn ei ddweud wrthyf. Does neb annibynnol yn dweud dim wrthoch chi*

*Mae dibynadwyedd gwybodaeth yn rhwystr mawr. Pe na bawn i wedi gweithio i fanc, yn ariannu benthyciadau ar gyfer paneli solar, byddwn i wedi mynd yn syth at gwmnïau paneli solar i gael dyfynbrisiau. Efallai y byddwn i wedi cael pecyn cyllid mawr ar gyfer paneli nad ydyn nhw'n addas i'm tŷ.*

## Rhwystrau'n ymwneud â'r gweithlu

### Diffyg arbenigedd

*Rwy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu a, heblaw am wella'r deunydd inswleiddio yn yr atig, diweddarau eich ffenestri, neu inswleiddio'r waliau, yn sicr dyw adeiladwyr cyffredinol ddim yn ymwybodol o gynhyrchion ôl-osod.*

**13.** Soniodd bron pob un o'r cyfranogwyr am ddiffyg arbenigedd yn y diwydiant adeiladu. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cytuno nad oes gan adeiladwyr cyffredinol, at ei gilydd, y wybodaeth angenrheidiol am y diwydiant i roi cyngor ar ôl-osod eiddo.

*Does dim digon o ddealltwriaeth am y dulliau sydd ar gael. Doedd gan yr adeiladwr a wnaeth ein hestyniad ni ddim gwybodaeth o gwbl am ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni, dim o gwbl. Ac wn i ddim am unrhyw adeiladwyr sydd â'r wybodaeth honno.*

### Prinder gweithlu

**14.** Mae bron pob un o'r cyfranogwyr o'r farn nad yw'r gweithlu sydd ei angen i ôl-osod eiddo rhent a chartrefi preifat ledled Cymru ar gael.

*Mae cwmnïau adeiladu eisoes yn brysur. Dydyn nhw ddim yn gallu gwneud dim gwaith ichi. Os ydych chi eisiau estyniad ac addasu'r atig, yna mae 'na restrau aros o hyd at 9 mis. Gan fod pob un o'r cwmnïau adeiladu hyn eisoes yn boddi mewn gwaith, tybed ble mae'r llywodraeth yn mynd i ddod o hyd i gwmnïau i wneud gwaith ôl-osod ar filiynau o eiddo. Dyw'r gweithlu ddim ar gael i wneud hynny. Mae'n debyg y byddai'n cymryd degawdau.*

*Er mwyn gallu ôl-osod yr holl dai yng Nghymru, mae hyn yn dasg enfawr. Mae'n debyg i hyfforddi byddin.*

## Nid oes un ateb sy'n addas i bawb: Rhaid cael y dulliau a'r deunyddiau

### cywir ar gyfer yr eiddo cywir

**15.** Disgrifiodd y cyfranogwyr sut y gall dulliau effeithlonrwydd ynni ar gyfer un adeilad, lleoliad, perchennog tŷ, neu landlord fod yn wahanol i un arall hyd yn oed os yw'r eiddo'n debyg.

*Mae llawer o baneli solar yn perfformio'n wael oherwydd pethau sylfaenol iawn fel gwyllanod yn nythu o dan y paneli ac yn eu symud o'u lle neu bobl*



*sy'n byw mewn byngalos gyda choed mawr yn eu gerddi sy'n cyfyngu ar olau'r haul.*

- 16.** Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod yr ansicrwydd ynghylch a fyddai dull penodol yn gweithio i'w heiddo nhw yn rhwystr.

*Roeddwn i'n gweithio i fanc ar brosiect paneli solar. Roeddwn i'n dadansoddi a oedd paneli solar yn fforddiadwy ac a oeddent yn talu amdanynt eu hunain dros gyfnod penodol o amser. Felly ar gyfer pecyn cyllid deng mlynedd, faint o ynni yr oedden nhw'n ei gynhyrchu dros y deng mlynedd hynny ac a oedd y cwsmer mewn sefyllfa lle roedd yn cynhyrchu ei arian ei hun? Mae'n debyg bod tua dwy ran o dair wedi gwneud hynny, sydd ddim yn ganran uchel iawn.*

- 17.** Rhoddodd rhai cyfranogwyr enghreifftiau o dulliau a deunyddiau aneffeithiol yn cael eu hawgrymu neu eu defnyddio, gan ddangos y rhwystr a wynebir wrth ddeall y dull cywir i'w fabwysiadu ar gyfer eiddo.

*Tua 15 mlynedd yn ôl roedd cynllun ar gael lle roedd peli bach polystyren yn cael eu pwmpio i mewn i waliau ceudod tai teras. Dyw topiau'r waliau ceudod ddim wedi eu cau, felly pan oedden nhw'n pwmpio'r deunydd roedd e'n hedfan allan o dop y wal, ac roedd Beddau yn nofio mewn peli bach polystyren! Wedyn roedd angen diwydiant cwbl newydd i dynnu'r deunydd yma o'r tai i gyd gan ei fod yn achosi lleithder. Roedd pwrpas i'r waliau ceudod, maen nhw'n gwneud rhywbeth, roedd yn rhwystr aer*

## Stoc tai sy'n heneiddio

*Mae dulliau modern yn iawn mewn adeilad modern, ond os oes gennych waliau cerrig fydd dulliau modern ddim yn gweithio.*

- 18.** Mae rhai cyfranogwyr o'r farn nad yw'r dulliau a'r deunyddiau gorau bob amser yn cael eu defnyddio wrth ôl-osod stoc tai sy'n heneiddio yng Nghymru er mwyn sicrhau hirhoedledd.

*Alla'i ddim deall agwedd pobl sy'n meddwl "wel, mi fydd yn iawn am 10 neu 20 mlynedd", dydw i ddim eisiau trosglwyddo'r llanast hwnnw i fy mhlant. Mae yna ddywediad, "mae dynion doeth yn plannu coed derw gan wybod na fyddan nhw byth yn eistedd yn eu cysgod".*

- 19.** Mae llawer o gyfranogwyr yn teimlo bod hyn yn rhwystr i ôl-osod eiddo preifat, gan y gall dewis gwael o ddulliau wneud difrod i'r eiddo a bydd angen gwneud gwaith i'w adfer.

*Gwyddom am adeiladwr sy'n gwneud gwaith adfer ar dai yng Nghymoedd y De. Mae'n treulio ei fywyd yn dadwneud yr holl ddifrod. Rwy'n meddwl am bob un o'r tai a gafodd eu rendro tua 30 mlynedd yn ôl, wedi'u chwistrellu â sment. Bydd llawer o broblemau'n dechrau dod i'r amlwg.*

*Mae gan gartrefi newydd sy'n llai na 20 neu 30 oed waliau ceudod, sy'n defnyddio rhwystr anwedd, a Kingspan ac mae hynny'n iawn. Ond dyw hynny ddim yn wir am y rhan fwyaf o Gymru. Mae dŵr yn mynd y tu ôl i'r rendr sment a dyw e ddim yn gallu dianc. Wnewch chi byth atal y dŵr rhag mynd i mewn, bydd yn dod o hyd i ffordd i mewn felly mae'n rhaid ichi roi ffordd iddo ddod allan.*

**20.** Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cytuno bod datgarboneiddio llwyddiannus yn gofyn am ddealltwriaeth fwy cyfannol o'r stoc dai a dulliau a deunyddiau wedi'u hystyried yn fwy gofalus i weddu i oedran yr eiddo.

*Yr hyn sydd gennym yng Nghymru, hyd y gwn i, yn enwedig yn y cymoedd, yw llawer o hen dai. Maen nhw wedi'u hadeiladu o gerrig ac i ddechrau roedd mortar calch ynddyn nhw. Oni bai eich bod yn defnyddio'r dulliau cywir i inswleiddio waliau solet, byddwch yn gwneud mwy o ddrwg nag o les. Felly, os ydych am inswleiddio pob cartref yng Nghymru mae'n rhaid ichi edrych ar ddulliau treftadaeth os am osgoi difrodi'r adeiladau. Oherwydd mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw mewn adeiladau treftadaeth yn y bôn.*

## Diffyg ymddiriedaeth

**21.** Dywedodd sawl cyfranogwr fod diffyg ymddiriedaeth, mewn perthynas â gwybodaeth a gweithredu polisiau, yn rhwystr iddynt wrth ystyried ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu heiddo.

*Y rhwystr mwyaf, fel landlord neu berchennog tŷ, yw ymddiriedaeth. Dyna'r un mawr. Fyddwn i ddim yn credu gair mae neb yn ei ddweud, fyddwn i ddim yn credu unrhyw un o arweinwyr y llywodraeth. Maen nhw i gyd yn dweud bod hyn a'r llall yn dod allan o'r amlen. Dw i ddim yn meddwl y byddai unrhyw landlord yn credu gair mae'r llywodraeth yn ei ddweud oni bai bod siec yn cyrraedd drwy'r post*

## 2. Costau byw

*Pe bai'r llygedyn lleiaf o obaith y gallai pobl fod wedi ôl-osod eu cartrefi yna mae Cost Argyfwng y Cyfnod Clo wedi chwalu hynny'n deilchion.*

**22.** Roedd y cyfranogwyr yn teimlo mai'r argyfwng costau byw yw'r rhwystr mwyaf arwyddocaol i ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn eiddo. Fe wnaethant ddisgrifio eu hofnau am eu sicrwydd ariannol.

*Mae pobl eisiau gwneud eu cartrefi'n ynni effeithlon. Maen nhw eisiau talu llai am eu hynni. Rydyn ni i gyd yn byw ar y blaned hon ac eisiau gofalu amdani. Ond mae'n rhaid ichi ddelio â'r pethau cyntaf yn gyntaf. Os na allwch chi fforddio cadw'ch tŷ yn gynnes neu dalu'ch biliau bwyd, sut mae ôl-osod byth yn mynd i fod yn flaenoriaeth?*

*Bydd yr argyfwng costau byw yn rhoi stop ar unrhyw fath o raglenni neu bolisiau effeithlonrwydd ynni. Dw i ddim yn meddwl y byddai neb yn malio oherwydd yr hyn sydd ar garreg eu drws ar hyn o bryd.*

**23.** Dangosodd y cyfranogwyr eu dicter tuag at y sefyllfa a'r syniad o ariannu prosiect datgarboneiddio ar eu heiddo ar hyn o bryd

*Mae'r llywodraeth yn byw ym mro breuddwydion os yw'n meddwl y gall ddibynnu ar gydwybod cymdeithasol pobl! Mae perchnogion tai yn cael trafferth gwneud unrhyw beth iddyn nhw eu hunain, does dim arian i'w sbario. Dyw e ddim yn mynd i ddigwydd.*

*Mae pawb yn poeni am sut maen nhw'n mynd i fwydo eu hunain a gofalu am ddyfodol eu plant. Does ganddo ddim i'w wneud â sut mae cyflawni polisi emosiynol i'r llywodraeth allan o fy mhoced fy hun.*

Pobl sy'n gweithio fydd yn dioddef waethaf yn sgil hyn. Y bobl sydd â chwpl o gannoedd o bunnau yn weddill ar ddiwedd y mis, fydd yn cael dim help gan neb. Felly i feddwl y bydd y llywodraeth yn dweud "nawr rydym am ichi edrych ar ôl-osod eich tŷ", dw i ddim yn meddwl rhywsut.

**24.** Disgrifiodd rhai cyfranogwyr y dewisiadau y byddant yn eu hystyried i sicrhau y gallant barhau i dalu eu biliau.

*Bydd yn rhaid imi ddod o hyd i arian neu newid fy ffordd o fyw er mwyn imi allu gwresogi fy nhŷ i'r un lefel ag yr wyf wedi'i wneud yn y gorffennol. Gallaf newid fy ffordd o fyw a defnyddio'r arian rwy'n ei wario ar bethau eraill i dalu cost y biliau uwch neu gallaf benderfynu peidio â gwresogi fy nhŷ i'r un lefel.*

*Ond rwy'n 70 mlwydd oed felly dydw i ddim wir eisiau meddwl am yr ail ddewis, dw i eisiau cadw fy nhŷ yn dwym fel y bu erioed.*

### **Cynnydd mewn costau llafur a deunyddiau**

**25.** Disgrifiodd y cyfranogwyr sut y mae'r cynnydd yng nghostau llafur a deunyddiau, oherwydd yr argyfwng costau byw, yn rhwystr sylweddol pellach i ôl-osod eiddo.

*Rwyf wedi adnewyddu dau eiddo yn ddiweddar, un eiddo ym mis Mai 2022 ac un a orffennais ym mis Mai 2021. Mae siŵr o fod wedi costio 25% yn fwy eleni oherwydd y cynnydd mewn costau byw.*

*Yn gyffredinol, mae cynhyrchion adeiladu ddwywaith neu deirgwaith y pris yr oedden nhw ddwy neu dair blynedd yn ôl. Os yw cost rhannau, llafur, a phopeth arall yn dal i gynyddu, yna does dim ots pa gynllun fydd yn cael ei roi ar waith oherwydd gallwch ychwanegu 20% at y gost wreiddiol yr oedd y cynllun yn mynd i'w thalu i ddechrau.*

### 3. Goresgyn y rhwystrau i ôl-osod mesurau

#### effeithlonrwydd ynni mewn eiddo preifat?

Fe wnaeth y cyfranogwyr nifer o awgrymiadau a fydd, yn eu barn nhw, yn helpu i gael gwared ar y rhwystrau i ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn eiddo preifat. Awgrymodd y cyfranogwyr hefyd syniadau ar gyfer dull mwy cenedlaethol o sicrhau effeithlonrwydd ynni.

#### Mynediad at wybodaeth berthnasol, ddiuedd ac amserol

**Argymhelliad 1.** Sefydlu 'siop-un-stop' ddiuedd i ddarparu gwybodaeth ar lefel genedlaethol, sydd hefyd yn darparu rhestr leol o osodwyr dibynadwy ac yn hwyluso fforwm ar-lein i berchnogion tai a landlordiaid.

*Byddai'n ddefnyddiol cael llinell gyngor neu gymorth i bobl lle mae arbenigwr ar ben arall y ffôn i roi cyngor ar yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd a sut i fynd ati i wneud y math hwn o waith. Gallai gyfeirio pobl at fasnachwyr a chwmnïau yn eu hardaloedd a all wneud y gwaith. Mae llawer o gynlluniau achredu yn y diwydiant gwella cartrefi. Ond gallai cyngor gan gymdeithas fasnach sy'n gallu rhoi cyngor diduedd am y masnachwyr a all wneud y gwaith fod yn ddefnyddiol.*

*Gofynnais i danysgrifio i fforwm landlordiaid, a dywedodd y cyngor wrtha'i nad oedd y fforwm wedi bod yn weithredol ers tua phedair neu bum mlynedd. Roeddwn i'n meddwl bod y fforwm yn syniad gwych, rhywle lle y gall landlordiaid siarad â'i gilydd am eu syniadau a chael gwybod am gynlluniau. Ond mae'n ymddangos fel nad yw ar gael bellach. Mae'n syniad a allai fod yn werth mynd ar ei drywydd.*

**Argymhelliad 2.** Darparu cyngor wedi'i deilwra ar gyfer eiddo unigol ar ddechrau unrhyw waith adeiladu neu ar gais drwy wasanaeth gwybodaeth canolog diduedd.

*Byddwn wedi hoffi gweld gwybodaeth reit ar ddechrau'r broses. Pan fyddwch chi'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio, yn cael cynlluniau gan benseiri, ac yn ystod y cam pan fydd eich prosiect neu'ch tŷ yn cael ei ddylunio, dylai fod*

*rhyw fath o gyfrifoldeb arnyn nhw i ddweud wrthoch chi am y pethau y dylech eu hystyried o ran effeithlonrwydd ynni.*

*Dydw i ddim o blaid pobl â chlipfwrdd yn cerdded o amgylch eich eiddo, ond mae angen i bob adeilad unigol gael ei asesu cyn i unrhyw waith ddechrau, er mwyn rhoi gwybod i berchennog y tŷ beth y gellir ei wneud gyda'i adeilad a nodi manteision ac anfanteision yr holl dechnegau a dulliau. A hynny er mwyn i bobl wybod y dull gorau i'w fabwysiadu ar gyfer eu hadeilad.*

*Byddwn wedi hoffi cael rhywfaint o gyngor a gwybodaeth annibynnol i drafod fy opsiynau. Hyd yn oed os oedd anfon adroddiad effeithlonrwydd ynni ar gyfer eich tŷ yn costio £50. Byddai cael rhywbeth yn ei le sy'n dweud "mae'n rhaid ichi wneud hyn os ydych am i'ch eiddo fod mor ynni effeithlon â phosibl" wedi bod yn ddefnyddiol. Hyd yn oed pe na bawn i'n hapus gyda'r arweiniad byddai wedi bod yn ddefnyddiol gwybod beth oedd angen imi ei wneud.*

**Argymhelliad 3.** Sicrhau bod stamp 'gwlad tarddiad' i'w weld ar yr holl ddeunyddiau adeiladu cyn eu prynu er mwyn galluogi pobl i leihau eu hól troed carbon.

*Un peth yr oeddwn i'n ymwybodol iawn ohono oedd nad oedd unrhyw wybodaeth ynghylch tarddiad y deunyddiau. Er enghraifft, teils wal, pan fydd rhywun yn dechrau ymchwilio rydych chi'n canfod eu bod wedi cael eu gwneud yn yr Eidal neu Sbaen. Ond doedd dim labeli i fy helpu i ddewis a oeddwn i am leihau fy ôl troed carbon ai peidio drwy brynu deunyddiau wedi'u gwneud yn lleol. Dim ond pan edrychais i ar y bocsys ar ôl iddyn nhw gyrraedd yr oedd yn bosib imi ddarganfod tarddiad y deunyddiau. Mae hi braidd yn hwyr wedyn.*

## Cymorth ariannol effeithiol i bawb

**Argymhelliad 4.** Darparu cymhellion ariannol i berchnogion tai preifat ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu heiddo, gan gynnwys gostyngiad neu seibiant yn nhaliadau'r dreth gyngor neu gymorth ariannol tuag at y gost

*Pe bawn i'n optimistaidd byddwn i'n dweud pe baech am wneud y gwaith hwn, byddai angen ymrwymiad ariannol rhannol arnoch gan y llywodraeth, 50/50 er enghraifft. Neu egwyl o 5 mlynedd o dalu eich treth gyngor. Y lefel honno o ad-dalu pobl sydd ei hangen.*

**Argymhelliad 5.** Darparu grantiau, benthyciadau di-log, a/neu gymorthdaliadau i bob landlord a pherchennog tai i ôl-osod mesurau arbed ynni yn eu heiddo.

*Byddwn wedi ystyried pwmp gwres ffynhonnell aer pe bai grant ar gael. Pan fydd y gwaith bum neu chwe gwaith cost y dewis arall, nid oes unrhyw ffordd yn y byd y byddwn i wedi ei ystyried. Ond pe bai grant yn lleihau'r gost 30-50% yn fwy na'r dewis arall byddwn i wedi'i ystyried.*

*Mae'r boeleri ym mhob eiddo sydd gennyf i gyd yn llai na 10 mlwydd oed. Fe ddaw y dydd pan fydd angen eu newid. Pan ddaw, gallwn fod yn gosod boeleri mwy effeithlon. Ond bydd landlordiaid a pherchnogion tai yn mynd am y boeler rhatach, y boeler y mae eu cyllideb yn ei ganiatáu. Nid dyna'r boeler mwyaf effeithlon o reidrwydd. Felly efallai fod angen cynllun arnom i helpu pawb pan fydd angen iddyn nhw gael boeleri neu ffenestri newydd, er mwyn iddynt allu fforddio'r opsiwn mwyaf ynni effeithlon.*

**Argymhelliad 6.** Galluogi landlordiaid i adhawlio'r dreth ar fesurau effeithlonrwydd ynni a gyflawnwyd ar yr eiddo y maent yn ei rentu.

*Pe bai'r dyn treth yn cynnig cymhelliad efallai y byddwn yn ailystyried. Oherwydd, flynyddoedd yn ôl, roeddech yn gallu cael beth bynnag yr oeddech yn ei wario ar eich eiddo yn ôl drwy dreth.*

*Y ffordd y gall y llywodraeth gael landlordiaid preifat i roi system wresogi ynni effeithlon a phaneli solar, ac yn y blaen, yn yr eiddo y maent yn ei rentu yw drwy wrthbwyso hynny drwy dreth fel eich bod yn cael yr arian yn ôl gan y dyn treth.*

## Ymgysylltu â landlordiaid a rhoi gwybodaeth iddynt

**Argymhelliad 7.** Sicrhau bod hyfforddiant Llywodraeth Cymru i landlordiaid yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn eiddo.

*Mae'n debyg bod yr hyfforddiant i landlordiaid yn cymryd 7 awr, ac mae sesiynau diweddarau ar gael. Dyma gyfle i rannu gwybodaeth gyda landlordiaid. Mae'r hyfforddiant yn amhrisiadwy ac mae'n rhaid ichi ei wneud er mwyn gweithredu'n gyfreithlon. Felly os yw Llywodraeth Cymru yn rhoi hyn ar waith, yna defnyddiwch ef i rannu gwybodaeth a rhoi gwybod i landlordiaid am fanteision cudd ôl-osod.*

**Argymhelliad 8.** Llywodraeth Cymru yn darparu hyfforddiant i landlordiaid i'w hannog i weld manteision busnes ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu heiddo.

*Efallai fod angen inni gyflwyno manteision ôl-osod i landlordiaid mewn ffordd wahanol a dangos iddyn nhw sut y byddai hynny o fudd iddynt. Ar ddechrau'r cyfweiliad hwn, dywedais nad oedd unrhyw fudd imi o ôl-osod fy*

*eiddo. Ond wrth feddwl am y peth nawr, oni fyddai'n wych dweud, dyma eiddo i'w rentu heb unrhyw filiau ynni! Gallai tenantiaid gynhyrchu eu hynni eu hunain drwy baneli solar ar y to. Dw i ddim wedi meddwl amdano felly o'r blaen. Byddai'n bwynt gwerthu da. Byddaf yn sicr yn ymchwilio i hynny. Fyddwn i byth wedi meddwl am hyn fel cyfle pe na bawn i wedi siarad â chi.*

*Mae gwybodaeth yn cael ei bwydo i landlordiaid ond dylai ymwneud yn fwy â syniadau a manteision cudd ôl-osod. Nid mater o wario arian ar baneli solar yn unig yw hyn. Mae hyn yn ymwneud â ffordd hollol newydd o drin eich tenantiaid a rhoi'r manteision iddyn nhw fel eu bod mewn gwirionedd eisiau aros a rhentu oddi wrthyh am yr 20 mlynedd nesaf. Y manteision i'r landlord yw bod gennych denantiaid hirdymor ac felly does dim rhaid ichi fynd i'r drafferth o hysbysebu, glanhau, colli misoedd o rent wrth hysbysebu ac ati. Mae'r buddion cudd hynny'n wirioneddol werthfawr a dylai melin drafod edrych i mewn i hyn i landlordiaid.*

## **Datblygu deunyddiau a dulliau ar gyfer hirhoedledd**

**Argymhelliad 9.** Gwneud gwaith ymchwil a datblygu ar effeithiolrwydd a hirhoedledd deunyddiau treftadaeth a dulliau i gefnogi'r stoc dai sy'n heneiddio yng Nghymru.

*Mae angen mwy o ymchwil i'r gwahanol fathau o insiwleiddio a chanlyniadau defnyddio gwahanol ddeunyddiau fel eich bod yn gwybod am ganlyniadau hirdymor defnyddio'r gwahanol dechnegau a deunyddiau mewn gwahanol adeiladau. Fe wnaethom waith ôl-osod gan ddefnyddio corc - panel corc sydd wedi ei osod â rendr o galch a diatomit. Ar ben hynny, mae wedi i blastro â chalch a chywarch. Diben defnyddio calch yw ei fod yn gallu anadlu. Felly y syniad yw mai'r calch yn y wal sy'n cael ei aberthu ac nid y garreg. Mae'r calch yn feddalach na'r garreg. Gall anwedd dŵr fynd i mewn ac allan ohono.*

*Rwy'n meddwl bod angen inni edrych ar ddeunyddiau mwy naturiol. Gallai cywarch fod yn ateb i lawer o'n problemau. Mae'n tyfu'n gyflym, gellir ei ddefnyddio ar gyfer tanwydd, adeiladu, papur, ac ati. Mae angen i'r llywodraeth feddwl am yr holl wahanol ddulliau a deunyddiau sydd ar gael.*

## **Systemau gwresogi cymunedol**

**Argymhelliad 10.** Datblygu systemau gwresogi cymunedol sy'n cyflenwi gwres i sawl eiddo o ffynhonnell wres gyffredin neu foeler cyffredin.



*Roeddwn i wedi bod yn edrych ar nweydddydd ers misoedd. Roedd Glofa'r Cwm yn arfer nweyddio ei glo. Ffoniais fy nhad a gofyn beth oedd y nwy, dywedodd wrthyf mai nwy glo oedd e'. Mae'r dechnoleg hon yn 150 mlwydd oed. Pan ddechreuon nhw gyflenwi gwres cymunedol a chyflenwad ynni i bobl am y tro cyntaf, dyna beth oedd e. Roedd gennych nweydddydd lleol a fyddai'n nweyddio glo neu bren a byddai'n cyflenwi nifer penodol o eiddo.*

*Credaf fod yr Almaen yn arwain y ffordd gyda nweyddio. Yn yr Almaen, maen nhw'n tueddu i fyw mewn tai aml-lawr, aml-genhedlaeth. Bydd ganddyn nhw nweydddydd 25 neu hyd at 40 cilowat yn yr islawr sy'n cael ei fwydo â phelenni. Mae ganddyn nhw hopran ar ei ben ac maen nhw'n llenwi'r system awtomataidd gyda phelenni sy'n rhedeg injan. Gallech gael is-orsaf leol ar gyfer eich trydan ar waelod y ffordd, sef dosbarthiad lleol. Byddai hyn yn darparu gwres a phŵer cyfunedig (CHP).*

*Fe wnes i rentu lle yng nghanol Llundain. Roedd ganddo foeler enfawr oddi tano a doedd dim rhaid inni dalu am ein gwres o gwbl. Roedd fy rhent ychydig bach yn uwch, ond pan symudais i'r lle nesaf, roedd yn rhaid imi ddechrau talu am wres ac roedd yn dalp mawr iawn o arian.*

## Ailwladoli asedau ynni

**Argymhelliad 11.** Ailwladoli asedau ynni ac ailfuddsoddi elw i ddatgarboneiddio stoc tai Cymru a lleihau biliau ynni.

Camgymeriad anferthol oedd preifateiddio popeth oherwydd erbyn hyn does dim rheolaeth gennym. Yr hyn ddylai ddigwydd yw bod ynni'n cael ei ail-wladoli. Yna gellir dargyfeirio'r cymorthdaliadau sy'n cael eu talu i bob un o'r cwmnïau hyn, sy'n mynd i bocedi cyfranddalwyr, i filiau ynni fel bod gennych ychydig o arian parod dros ben i'w ddefnyddio i ôl-osod eich tŷ.

*Dylid cymryd adnoddau naturiol o ddwylo'r sector preifat a'u rheoli'n genedlaethol. Mae'n adnodd cyhoeddus sydd wedi cael ei gamreoli. Dylai fod un cyflenwr cenedlaethol. Hefyd, yn y gadwyn gyflenwi, mae'r cwmnïau echdynnu yn gwneud llawer iawn o elw, ond rydym yn talu am hynny yn nes ymlaen. Felly nid mater o wladoli'r ddarpariaeth yn unig yw hyn ond gwladoli'r broses echdynnu. Os yw'r cwmnïau mawr hyn a'u cyfranddalwyr yn gwneud cymaint o arian, pam nad ydym yn ailwladoli'r cynhyrchion hynny ac yn defnyddio'r cynhyrchion i newid i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a buddsoddi mewn seilwaith?*

## Cymru yn cynhyrchu ei hynni ei hun

**Argymhelliad 12.** Sicrhau bod Cymru yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy dechnoleg forol.

*Yn ddiweddar bu'n rhaid imi ymchwilio i ynni'r llanw. Pan ddechreuais i ymchwilio, byddai fy ngwaed yn berwi bob tro roeddwn i'n gwranddo ar newyddion neu bob tro roeddwn i'n clywed gwleidydd neu ymgyrchodd yn sôn am fod yn wyrdd. Dim ond am dyrbinau gwynt mae pobl yn sôn. Ni yw Saudi Arabia yn y maes ynni llanw. Yn afon Hafren, mae gennym yr ail amrediad llanw mwyaf ar wyneb y ddaear. Bron na allem fwydo ein hunain ag ynni'r llanw. Ddwywaith y dydd, bob dydd, byddai'r llanw'n darparu ynni. Llanw yw'r ateb ac mae'n ymddangos bod pobl yn fwriadol anwybodus o hyn.*

*Os yw'r llywodraeth yn gofyn cwestiynau am sut mae gwneud Cymru'n fwy carbon niwtral? Yna pam wnaethon nhw roi'r gorau i gynlluniau ar gyfer morlyn llanw yn Abertawe a morglawdd ar draws afon Hafren? Dyw hynny ddim yn gwneud synnwyr.*

*Mae gennych aber sydd ymhlith y deg aber â'r amrediad llanw mwyaf yn y byd a fyddai wedi darparu ynni glân ac adnewyddadwy. Y gyllideb gychwynnol oedd £11 biliwn, hyd yn oed pe baen nhw'n gwario pum neu chwe gwaith yn fwy na'r gyllideb mae'n dal i ddod o dan y gyllideb gorsaf ynni niwclear o £90 biliwn. Byddai'r morglawdd wedi talu amdano'i hun, wedi cynhyrchu ynni cwbl lân, heb unrhyw risg sy'n gysylltiedig â niwclear. A byddai wedi cynhyrchu mwy o ynni nag y gwnaeth yr adweithydd niwclear yn ôl eu rhagamcanion cychwynnol. Sut maen nhw'n gallu rhoi'r gorau i brosiect o'r fath? Efallai y gallai llywodraeth Cymru esbonio imi pam y gwrthododd greu morlyn llanw yn Abertawe?*